# Lle a rôl plant ym mywyd yr Eglwys




**1. Mae plant yn bartneriaid cyfartal ag oedolion ym mywyd yr eglwys.**
Ceisiwn ofalu bod plant yn yr eglwys hon yr un mor bwysig ag oedolion.

**2. Mae addoliad Cristnogol ar gyfer plant yn ogystal ag oedolion.**
Rydym yn ceisio gofalu bod pawb yn yr eglwys hon yn medru addoli Duw mewn llawer o ffyrdd gwahanol, waeth beth yw eu hoedran.

**3. Mae dysgu a thyfu mewn ffydd ar gyfer yr eglwys gyfan, yn oedolion a phlant.**
Ceisiwn ofalu bod ein heglwys yn helpu pawb i barhau i ddysgu a datblygu yn eu taith ffydd.

**4. Mae cymdeithas a chwmnïaeth ar gyfer pawb, a phawb yn perthyn yn ystyrlon i'w gilydd.**
Ceisiwn ofalu bod ein heglwys yn awyrgylch lle mae pawb yn teimlo ac yn gwybod eu bod yn perthyn.

**5. Mae gwasanaethu a chyfrannu ar gyfer plant, yn ogystal ag oedolion.**
Yn yr eglwys hon, rydym yn ceisio gofalu bod plant ac oedolion yn cael gwneud pethau i helpu Duw, yr eglwys a phobl eraill yn y gymuned a'r byd.



**6. Mae'r alwad i efengylu a thystiolaethu ar gyfer holl bobl Dduw, yn blant ac oedolion.**
Mae Duw eisiau i bawb rannu'r Newyddion Da gydag eraill. Fel eglwys rydym yn ceisio gwrando a helpu pawb o bob oed i rannu'r hyn rydym wedi ei ddysgu.

**7. Mae'r Ysbryd Glân yn siarad yn bwerus drwy blant yn ogystal ag oedolion.**
Gall pobl ddysgu beth mae Ysbryd Glân Duw eisiau ei ddweud wrthyn nhw drwy'r hyn a ddywedwn ac a wnawn. Mae ein heglwys yn gwrando ar leisiau plant fel rhan o hyn.

**8. Mae darganfod a datblygu doniau mewn plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar yr eglwys.**
Mae ein heglwys yn ceisio helpu pob un aelod i ddarganfod eu doniau arbennig a'u helpu i ddatblygu a defnyddio'r doniau hynny.

**9. Fel teulu'r eglwys, rhaid inni ddysgu gwneud dim ond y pethau hynny mewn grwpiau oedran ar wahân na allwn eu gwneud gyda'n gilydd yn synhwyrol.**
Mae ein heglwys yn ceisio creu cyfleoedd inni wneud pethau gyda'n gilydd fel un teulu, ac nid oes ganddi ormodedd o bethau sydd ar gyfer oedolion yn unig.

**10. Mae'r cysyniad o 'offeiriadaeth yr holl saint' yn cynnwys plant.**
Gall pawb yn ein heglwys fod yr un mor agos at Dduw, trwy weddïo a gwasanaethu.